Meddai Iesu wrthynt, “Mor ddiddeall ydych, a mor araf yw eich calonnau i gredu’r cwbl a lefarodd y proffwydi! Onid oedd yn rhaid i’r Meseia ddioddef y pethau hyn, a mynd i mewn i’w ogoniant.”
(Luc 24:25-26)

Dyma’r Crist atgyfodedig yn ymuno â dau ddisgybl digalon yn teithio o Jerwsalem i Emaus, heb iddynt ei adnabod. Erbyn diwedd yr hanes, maen nhw wedi rhuthro nôl i Jerwsalem, gan wybod bod yr Arglwydd wedi ei gyfodi yn wir.

Digalondid

Mae Luc yn dweud wrthym bod digalondid y ddau ddisgybl ‘yn eu hwynebau’. Yn wir, gallem ddweud eu bod yn anobeithiol, am nad oedd pethau wedi datblygu fel yr oedden nhw wedi disgwyl. Roedden nhw’n disgwyl i Iesu **“brynu Israel i ryddid”** (21) fel brenin nerthol yn gorchfygu’r Rhufeiniaid ac unrhyw elyn neu ormeswr tebyg. Ond pa frenin sy’n ennill goruchafiaeth ar groes? Dyma esiampl o’r groes yn dramgwydd i’r Iddew, fel y dywed yr apostol Paul.

Roedden nhw hefyd yn anghrediniol. Pan ddaethpwyd â’r neges gan rai o’r gwragedd eu bod wedi gweld angylion oedd yn dweud fod Iesu’n fyw, mae’n amlwg nad oedd y ddau yma’n credu’r neges. Mae rhyw oerni anghrediniol yn y geiriau: **“ond ni welsant mohono ef”** (24).

Ac mae’n bosib i ni fod yn ddigalon ac yn anobeithiol a hyd yn oed yn anghrediniol yn ein dyddiau ni. Doeddem ni ddim yn disgwyl i sefyllfa ysbrydol Cymru i fynd cyn ised ag y mae ar hyn o bryd. Ac efallai wrth ddarllen ac wrth glywed am waith Duw yn y gorffennol yr ydym yn dawel fach yn dweud wrthym ein hunain na all hynny ddigwydd eto. Mae’n hawdd i ni fod yn sinicaidd ac yn anghrediniol.

Rheidrwydd y groes

Mae’r Arglwydd Iesu yn dangos iddynt nad oeddent wedi deall na chredu ***y cwbl*** a lefarodd y proffwydi am y Meseia. Roedden nhw’n gyfarwydd â’r proffwydoliaethau buddugoliaethus am y Meseia yn teyrnasu a gosod ei elynion o dan draed, ond nid â‘r rhai oedd yn sôn am ei ddioddefaint. Felly, mae Iesu yn dehongli iddynt o’r ***holl*** Ysgrythurau y pethau a ysgrifennwyd amdano.

Byddai wedi dechrau efallai gyda Genesis 3:15: **“Gosodaf elyniaeth hefyd rhyngot ti a’r wraig, a rhwng dy had di a’i had hithau; bydd ef yn ysigo dy ben di, a thithau’n ysigo’i sawdl ef.”** Mae’r adnod yma’n dangos

na fyddai'r Meseia, sef had y wraig, yn sigo pen y diafol, heb i'r sarff sigo ei sawdl. Felly, roedd dioddefaint i ddod i had y wraig wrth goncro'r hen sarff.

Mae'n bosib y byddai wedi troi at y Salmau: **"Y maen a wrthododd yr adeiladwyr a ddaeth yn brif gonglfaen"** (118:22). Eto, cyn i'r Meseia ddod yn brif gonglfaen, byddai'n cael ei wrthod.

Wrth orchfygu pechod a drygioni, mae Duw wedi caniatáu i'r diafol wneud ei waethaf trwy ymosod yn uniongyrchol ar Fab Duw. Nid buddgoliaeth wag mo buddugoliaeth Crist, ond un yn erbyn gelyn a wnaeth ei eithaf. Serch hynny, 'Crist a orchfygodd!'

Yna byddai'n siŵr o fod wedi troi at Eseia 53: **"roedd pris ein heddwch ni arno ef… a rhoes yr Arglwydd arno ef ein beiau ni i gyd"** (5,6). Byddai wedi esbonio bod rhaid delio â dyled pechod y ddynoliaeth. All Duw ddim ein derbyn heb gosbi'n bai. Mae hyn yn amlwg yn system aberthau yr Hen Destament. Byddai Iesu wedi dangos mai Ef oedd **"Oen Duw sy'n cymryd ymaith bechod y byd"** (Ioan 1:29). Felly, roedd rhaid i'r Meseia roi ei waed, i glirio dyledion ein pechod ac i fodloni cyfiawnder Duw, ac i droi digofaint Duw oddi wrthym ni.

Agor llygaid

Wrth gyrraedd Emaus, mae'r disgyblion yn pwyso ar Iesu i aros gyda nhw, ac yn ei nabod ar doriad y bara, gan sylweddoli bod rhywbeth wedi digwydd ***ynddyn*** nhw yng nghwmni Iesu.

Agorwyd eu llygaid. Roedd eu digalondid wedi cau eu llygaid rhag ei nabod ar y cychwyn. Wrth i'r Arglwydd esbonio'r Gair a thorri'r bara, gwelsant ei fod yn fyw, gwelsant mai Ef oedd gyda nhw ar hyd y ffordd. Roedden nhw'n sylweddoli hefyd fod eu calonnau ar dân wrth iddo agor y Gair iddynt. Yna daeth egni a brwdfrydedd mawr i'w calonnau i fynd yn ôl a rhannu'r newyddion da gyda'r gweddill.

Yma gwelwn ddwy elfen yr Efengyl. Mae'r Efengyl yn dweud wrthym beth mae Crist wedi ei wneud trosom, ond hefyd beth mae'n ei wneud ynom. Nid digon gwybod am ei waith trosom heb brofi'r effaith o'i weld fel ein Ceidwad, profi ei faddeuant a'i ras yn y galon, a'r parodrwydd mewnol i'w wasanaethu'n ddigymell. Hyn fyddo profiad pob un ohonom.